# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/07/2017 Ganolfan Edern am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (CAD) | Gruffydd Williams | Catrin Roberts | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Rhys Tudur | Alan Griffiths | Andrew Owen | Bethan Williams |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim. Croesawu aelodau newydd; Andrew Owen a Bethan Williams i'r cyfarfod.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim.

3. **Cofnodion 13/06/2017 (ar cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Cyfrifon y Cyngor**
   Rhannu copïau gan nodi bod y balans ddim yn iawn gan fod arian ddim wedi ei dynnu allan eto.

5. **Awdit – BDO**
   Cyfrifon wedi eu derbyn yn ôl gan John Roberts, Caernarfon. Mae angen eu rhoi at ei gilydd yw gyrru ymlaen i BDO (Awdit allanol).
   Bydd angen trefnu cyfarfod hefo'r Cadeirydd a Clerc gan fydd angen iddyn eu gwyro ac arwyddo.

6. **Diolch i Glesni Gwilym Jones – Cyn Glerc**
   Aelodau eisiau nodi eu gwerthfawroget am y Gwaith mae'r cyn clerc Glesni Jones wedi ei wneud yn ystod ei chyfnod hefo'r cyngor.
   Mae Sharon Williams eisoes wedi trefnu cerdyn a blodau a'i gyrru ymlaen i Glesni ar ran y Cyngor Tref.

7. **Seddi Gwag**
   Nodwyd bod Andrew Owen a Bethan Williams bellach wedi ymuno a'r Cyngor Tref. Mae hyn yn gadael tair sedd wag; 1 yn Edern, 1 yn Nefyn ac 1 yn Morfa Nefyn.

8. **Llwybrau**
   Wedi derbyn rhybudd bwriad i gau llwybr ac ail agor llwybr wal hen fynwent.
   Cytuna'i bod hyn yn ddatrysiad llawer gwell i'r llwybr presennol.

9. **Y Ddol**
   Wedi derbyn llythyr gan Knights gyda'r bwriad o roi cais cynllunio diwygiedig i'r cyngor.
   Mae'r tir eisoes hefo amod cynllunio i ddarparu rhandiroedd. Mae'r rhan daliwr yn unfrydol eisiau symud i'r tir uchel. Mae'r tir sydd wedi ei ddarparu ar hyn o bryd yn llawer rhy wlyb i dyfu un rhywbeth.
   Rhaid egluro i Meilir Hughes nad oes les pen agored i'r tir. Dim pwrpas gwario a les yn dod i ben.
   Dim y Cyngor Tref sydd yn berchen ar y tir.
   Cynnig gwrthod a mynd ymlaen i'r pwyllgor cynllunio.
   Mae ddigon o dai ar werth yn Nefyn yn barod ac nid oes angen ddim mwy a nid y Cyngor Tref sydd yn berchen ar y tir.

**10. Cydbwyllgor AHNE**

Angen enwebydd i fynychu'r cyd bwyllgor. Gruff Williams wedi cynnig ei hun os nad yw'n bresennol ar y cydbwyllgor yn ei ddyletswyddau fel Cynghorydd Gwynedd.
Y Clerc yn hapus i fynychu'r cydbwyllgor ond rhaid cadarnhau bod hyn yn dderbyniol cyn symud ymlaen. Gruff Williams am gadarnhau.

**11. Grwp Cynefin**

Dal enwebiadau yn ôl tan fis Medi.

**12. Llwybrau**

Wedi cyfarfod hefo Tim Jones ynglŷn â llwybr y Morwyr, Cors Geirch – Gwariant sylweddol wedi ei wneud bellach. Nodwyd nad oes yna fwy o bres ar gael. Disgwyl i Dewi Owen Cyngor Gwynedd ddychwelyd o'i wyliau i drafod ym mhellach.
Cynnal a chadw llwybrau – Nodi bod angen gwelliannau gan fod yr arwynebedd wedi mynd yn beryg.
Cynnig rhoi pwysau ar Gyngor Gwynedd i ddarparu llwybr rhwng Nefyn a Pistyll
Cynnig os oes pres ar ôl i ddarparu llwybr rhwng Bryn Cynnan a Morfa Nefyn. Nid yw hyn yn flaenoriaeth cyllideb; er bod y lon yn beryg ofnadwy nid oes yr un ddamwain. Bechod bod rhaid cael damwain cyn ceir cyllideb.

**13. Traethau Morfa Nefyn a Nefyn**

Wedi derbyn cwynion ynglŷn â thyfiant tu ôl I Hen Blas. Sian Hughes wedi cysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynnig cael pris gan Cliff i fynd i dori'r ochrau.

**14. Llwybr Saff i'r ysgol – Morfa Nefyn**

Gwyn Evans Gorfodaeth wedi bod yn edrych ar y sefyllfa. Bydd angen cadw at yr amod cynllunio. Grŵp Cynefin yn awgrymu bod Cyngor Tref yn rhannu'r costau. Sian Hughes am yrru gwybodaeth ymlaen i'r clerc.

**15. Safle Ail-Gylchu, Ffordd Dewi Sant**

Gwelliannau wedi eu gwneud gan y pysgotwyr. Angen gwneud gwelliannau pellach i'r safle.
Cynnig gwaredu'r biniau ail-gylchu o'r safle yn gyfan gwbl. Gellir defnyddio'r safle fel maes parcio i'r traeth fel sydd wedi digwydd eisoes yn Abersoch ac yn gweithio yn dda iawn.

**16. Biniau**

Cynnig holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r posibilrwydd o gael biniau mwy. Bydd angen eu gwagio lle'i aml a beth yw oblygiadau costau hyn?
Rhaid gwneud yn siŵr bod y biniau wedi eu gosod ar y traethau.
Angen ail leoli biniau sydd wedi diflannu wrth safle bws a man ail-gylchu ac oes bosib symud y biniau o Gae Coch at y toiledau.

**17. Y Llyfrgell**

Mae cyfarfod wedi ei drefnu hefo'r twrna wythnos nesaf i drafod. Mae Meilir Hughes wedi cadarnhau bod y cynllun newydd yn gostwng y costau.

**18. Traethau**

Wedi derbyn Rhybudd Les gan Ystâd y Goron yn cadarnhau terfynu'r les. Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod yn edrych ar ôl y traethau i'r dyfodol.
Arfon Hughes wedi cael cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd yn nod mae'r tir feddianwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw'r tir. Cynnig gyrru llythyr i'r tir feddianwyr i gyd yn eu hatgoffa o hyn.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Caban wedi ei leoli yn Nefyn a Morfa Nefyn.
Yn dilyn derbyn cwyn gan y cyhoedd yn nodi fod yna ddim digon o arwyddion cwn ar y traeth, wedi gwirio hyn a nodi bod yr arwyddion yn ddigonol.
Sharon Williams yn nod eu bod yn bryderus am ddiogelwch y caban. Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn a gwirio os yn briodol.

**19. Cefnogol**
Erych i mewn i gyfrifiadur ac argraffydd newydd i'r clerc.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C15/1233/42/LL – Gwrthwynebu**
Oes fwriad i wneud Gwaith ar y tŷ? Beryg o fyw yn y siale yn barhaol.

**C17/0587/42/CR – Caniatau**

**Ceisiadau am gyfraniad**

Dim

**Gohebiaeth**

**Cyrsiau ar gael** - Trafod

**Peiriannydd Ardal Dwyfor –** Cynnig bod y Cyngor Tref yn trefnu i rywun dwtio ochrau a gwrychoedd. Sian Hughes am drefnu hefo Cyngor Gwynedd.

**Indian Nefyn –** Wedi derbyn cwynion am y llanast sydd tŷ allan. Arfon Hughes am gysylltu hefo'r perchennog a thenant.

**Taliadau wedi cael ei cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| Crown estate | £16.38 |
| Cliff Hughes | £1911.00 |
| Cyflog y Clerc | £520.00 |
| Ashley Hughes | £42.46 |
| Mr David M Parry | £436.00 |
| BACSTAL | £130.00 |

**Ôl Nod**

**Pensiwn y Clerc –** Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn.